**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

**Kirsty Williams AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

20 Mawrth 2018

Annwyl Kirsty

Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn bwriadu cynnal sesiwn graffu untro gyda CBAC a Cymwysterau Cymru ar 2 Mai 2018. Diben y sesiwn yw ystyried y ddarpariaeth o werslyfrau ac adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion sy'n cymryd cymwysterau cyffredinol diwygiedig (TGAU a Safon Uwch) yng Nghymru. Rydym yn arbennig o bryderus ynghylch argaeledd adnoddau cyfrwng Cymraeg a'r adnoddau sydd ar gael mewn pynciau penodol.

Rydym wedi clywed pryderon anecdotaidd nad yw rhai disgyblion wedi cael mynediad at yr adnoddau, yn yr iaith o'u dewis, y maent yn teimlo sy'n angenrheidiol i gyflawni eu potensial.

Rydym wedi cael llythyrau gan CBAC a Cymwysterau Cymru yn nodi eu safbwynt.

Byddem yn ddiolchgar o gael safbwyntiau neu wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ar y meysydd a ganlyn:

- a oes prinder y llyfrau cyfrwng Cymraeg, neu gyfrwng Saesneg, neu adnoddau dysgu angenrheidiol, ar gyfer disgyblion yng Nghymru sy'n ymgymryd â'u TGAU a Safon Uwch;
- a oes unrhyw brinder neu broblemau mewn unrhyw bynciau penodol;
- a yw rhanddeiliaid yn credu y bydd unrhyw un o'r anawsterau a nodir yn/wedi cael effaith ar ganlyniadau disgyblion;

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

- hyder rhanddeiliaid yn argaeledd adnoddau a gwerslyfrau yn y dyfodol, o gofio natur unigryw gynyddol cwricwlwm Cymru;
- rôl CBAC a Cymwysterau Cymru i sicrhau darpariaeth ddigonol o adnoddau; ac
- unrhyw syniadau neu sylwadau eraill ar ddarparu adnoddau dysgu yng Nghymru.

Gofynnir i'r rhanddeiliaid a restrir yn yr Atodiad i'r llythyr hwn hefyd ymateb i'r pwyntiau uchod.

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb erbyn **dydd Iau 19 Ebrill 2018**.

Yn gywir

**Lynne Neagle AC**
**Cadeirydd**

**ATODIAD**

Ymgynghoreion ysgrifenedig

- Y Comisiynydd Plant
- Comisiynydd y Gymraeg
- Estyn
- ERW
- Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- GwE
- Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru
- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
- Yr Undeb Addysg Genedlaethol
- Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru
- Voice Cymru